# Cynhyrchu gorffeniadau rendr allanol cymhleth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dethol a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod rendr cadarn dwy- a thair-haen a chynhyrchu gorffeniadau cymhleth ar gefndiroedd allanol

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol plastro a gall gweithwyr adeiladu, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dehongli'r wybodaeth a roddir sy'n ymwneud â'r gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei pherthnasedd
2. cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a roddir a'r canllawiau swyddogol i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel ac iach
3. dethol y nifer a'r ansawdd gofynnol o adnoddau ar gyfer y dulliau gweithio
4. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal gyfagos
5. cydymffurfio â'r wybodaeth gontract a roddir i gyflawni'r gwaith yn effeithlon yn ôl y fanyleb ofynnol
6. cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd, yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Meini Prawf Perfformiad 1**
**Dehongli gwybodaeth**

K1 y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd i adrodd a chywiro gwybodaeth **amhriodol** ac adnoddau **anaddas**, a sut y cânt eu gweithredu
K2 y mathau o **wybodaeth**, eu ffynhonnell a sut y cânt eu dehongli
K3 y gweithdrefnau sefydliadol i ddatrys **problemau â'r wybodaeth** a pham ei fod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn

*

***Meini Prawf Perfformiad 2**
**Arferion gwaith diogel**

K4 lefel y ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei chael o **wybodaeth** ar gyfer **deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a chanllawiau swyddogol** a sut y caiff ei gweithredu
K5 sut y dylid ymateb i **argyfyngau** a phwy ddylai ymateb
K6 y gweithdrefnau diogelwch sefydliadol ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
K7 beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer riportio damweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad
K8 pam, pryd a sut **y dylid defnyddio cyfarpar rheoli** iechyd a diogelwch
K9 sut i gydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn diwallu deddfwriaeth gyfredol a **chanllawiau swyddogol**

**

**Meini Prawf Perfformiad 3**
**Dethol adnoddau**

K10 y nodweddion, ansawdd, defnyddiau, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a sut y dylid cywiro diffygion
K11 sut y dylid defnyddio'r **adnoddau** a sut yr adroddir am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau**
K12 y gweithdrefnau sefydliadol i ddethol adnoddau, pam y cawsant eu datblygu a sut

y cânt eu defnyddio
K13 y peryglon sy'n gysylltiedig â'r **adnoddau a'r dulliau gweithio** a sut y cânt eu goresgyn

**Meini Prawf Perfformiad 4**
**Lleihau'r risg o ddifrod**

K14 sut i **ddiogelu gwaith** rhag difrod a phwrpas diogelu
K15 pam y dylid **gwaredu gwastraff** yn ddiogel a sut y caiff ei gyflawni

**Meini Prawf Perfformiad 5**
**Diwallu manyleb y contract**

K16 sut mae **dulliau gweithio**, i ddiwallu'r fanyleb, yn cael eu cyflawni a sut y dylid adrodd am **broblemau**
K17 sut mae gwaith **cynnal a chadw** offer a chyfarpar yn cael ei wneud

**Meini Prawf Perfformiad 6**
**Amser wedi'i ddyrannu**

K18 beth yw'r **rhaglen** i'r gwaith gael ei wneud yn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig a pham y dylid cadw at derfynau amser

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Meini Prawf Perfformiad 1**

1 dehongli lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg a gwybodaeth gweithgynhyrchwyr sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd i'w wneud

**Meini Prawf Perfformiad 2**

2 osgoi risg trwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir sy'n ymwneud â'r dilynol
2.1 dulliau gweithio
2.2 defnydd diogel o gyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
2.3 defnydd diogel o gyfarpar mynediad/platfformau gweithio
2.4 defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
2.5 risgiau penodol i iechyd

**Meini Prawf Perfformiad 3**

3 dethol adnoddau sy'n gysylltiedig â'ch gwaith eich hun
3.1 deunyddiau
3.2 offer a chyfarpar

**Meini Prawf Perfformiad 4**

4 diogelu'r gwaith a'r ardal gyfagos rhag difrod
5 lleihau difrod a chynnal lle gweithio glân
6 gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol

**Meini Prawf Perfformiad 5**

7 arddangos sgiliau gwaith i fesur, amlinellu, gosod a gorffen rendr dwy a thair haen
8 defnyddio a chynnal offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol
9 paratoi arwynebau cefndirol, cymysgu rendr a chynhyrchu pedwar o'r gorffeniadau rendr allanol dilynol hyd at gyfarwyddiadau gweithio penodol
9.1 tyrolaidd
9.2 gro
9.3 uniad maen nadd
9.4 cast garw (harling, gro gwlyb)
9.5 wedi'i grafu
9.6 gweadog
9.7 cerrig efelychiadol
9.8 addurnol

**Meini Prawf Perfformiad 6**

10 cwblhau eich gwaith eich hun o fewn yr amser amcangyfrifedig, dyranedig i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill ac/neu y cleient

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Gwaredu gwastraff**

1 cyfrifoldebau amgylcheddol, gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Argyfyngau**

2 ymateb y gweithiwr i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ymwneud â
2.1 thanau, colledion, anafiadau
2.2 argyfyngau'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol

**Peryglon**

3 y rhai hynny a nodir trwy asesiad risg, dull gweithio, gwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol

**Cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

4 a nodir gan egwyddorion atal ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, sefyllfaoedd gwaith ac amgylchedd gwaith cyffredinol
4.1 mesurau amddiffynnol ar y cyd
4.2 offer diogelu personol (PPE)
4.3 offer diogelu anadlol (RPE)
4.4 gwyntyllu egsôst lleol (LEV)

**Gwybodaeth**

5 lluniadau, manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gweithgynhyrchwyr a rheoliadau cyfredol sy'n rheoli adeiladau

---

**Deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol**

6 mae hyn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r gweithiwr ynghylch damweiniau posibl, peryglon iechyd a'r amgylchedd wrth weithio yn y gweithle, islaw lefel y ddaear, mewn lleoedd cyfyng, ar uchder, ag offer a chyfarpar, â deunyddiau a sylweddau, â symud/storio deunyddiau a thrwy trin â llaw a chodi mecanyddol

---

**Cynnal a Chadw**

7 gofal gweithredol o offer llaw,o ffer pŵer cludadwy ac offer ategol

**Dulliau gweithio**

8 cymhwyso gwybodaeth ar gyfer arferion, gweithdrefnaua sgiliau gwaith diogel ac iach sy'n ymwneud â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir

8.1 paratoi arwynebau cefndirol

8.2 cymysgu rendradau allanol wedi'u seilio ar dywod, sment a chalch

8.3 gosod rendrad dwy- a thair- haen ar gefndiroedd cadarn allanol a llath metel estynedig

8.4 ffurfio onglau, ciliau, a chymalau ehangu mewnol ac allanol

8.5 ffurfio gorffeniadau tyrolaidd, gro, cymal maen nadd, cast garw (harling, gro gwlyb), wedi'i grafu, gweadog, cerrig efelychiadol a rendrad addurnol

8.6 cydnabod a phenderfynu pryd mae angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol ac adrodd yn unol â hynny

8.7 deall gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladwaith traddodiadol (cyn 1919) ac arwyddocâd hanesyddol

8.8 defnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy ac offer ategol

8.9 gweithio ar uchder

8.10 defnyddio cyfarpar mynediad/platfformau gweithio

9 gwaith tîm a chyfathrebu

10 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â rendro

**Problemau**

11 y rhai hynny sy'n deillio o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio

11.1 eich awdurdod eich hun i unioni

11.2 gweithdrefnau adrodd sefydliadol

**Rhaglen**

12 mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd amcangyfrifedig

13 gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer adrodd am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

**Diogelu gwaith**

14 diogelu gwaith rhag difrod a achosir gan weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw

**Adnoddau**

15 deunyddiau, cydrannau a chyfarpar sy'n ymwneud â mathau, nifer, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd

15.1 rendrad, tywod, calch, sment ac ychwanegion
15.2 dŵr glân
15.3 defnyddio offer llaw, offer pŵer cludadwy ac offer ategol
16 dulliau cyfrifo nifer, hyd, arwynebedd a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r dull/gweithdrefn i gynhyrchu gorffeniadau rendrad allanol cymhleth

**Gweithdrefnau diogelwch**

17 safle, gweithle, cwmni a gweithiwr

Cynhyrchu gorffeniadau rendr allanol cymhleth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Construction Skills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Rhag 2014 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Rhag 2019 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CITB |
| **RCU gwreiddiol** | COSVR77 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Plastrwyr |
| **Cyfres/Set** | Plastro (Adeiladu) |
| **Geiriau Allweddol** | Dwy-haen; Tair-haen; Castiau clychau; Gwaith-cerrig-efelychiadol; Gorffeniadau-gweadog; Mathau-o-gro; Rendro-cymysgu; Gwaith plastro; Onglau-mewnol; Onglau-allanol; Calch; Rendrad; Tywod; Cast garw; Tyrolaidd; Cymal maen naidd |